



Hyfforddiant Teithio'n Annibynnol



Gwybodaeth i Rieni/Cynhalwyr



Beth yw Hyfforddiant Teithio?



Helpu pobl sydd angen teithio yn
ddiogel ar eu pennau eu hunain



Naill ai â chymorth wyneb yn wyneb
neu'n rhan o grŵp



Rydyn ni'n darparu'r
cymorth yma:



Hyfforddiant tymor byr i
helpu'ch perthynas i ddysgu am
drafnidiaeth gyhoeddus yn eich
ardal chi




Rhoi'r hyder i'ch perthynas ei
defnyddio



Hyfforddiant wyneb yn wyneb
rheolaidd, dwys, mwy hirdymor er
mwyn dysgu sgiliau diogelwch ar y
ffyrdd ac ymwybyddiaeth
bersonol pwysig

Hyfforddiant



Pwy sy'n gallu cymryd rhan?



Pawb, waeth beth yw eu hoed, eu gallu neu eu hanghenion



Y rheiny sydd ag ychydig o wybodaeth neu brofiad yn unig o deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus a diogelwch ar y ffyrdd, neu dim gwybodaeth na phrofiad o gwbl



Bydd y rheiny sydd ag **Anghenion Dysgu Ychwanegol** yn elwa'n fawr o'r hyfforddiant yma.



Hyd nes eu bod nhw'n gadael yr ysgol, mae pobl ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn aml yn defnyddio tacsis wedi'u trefnu iddyn nhw ymlaen llaw



Pan fyddan nhw'n gadael yr ysgol i fynd i addysg bellach, lleoliadau gwaith, a derbyn hyfforddiant, mae'n bosibl fydd dim profiad gyda nhw o sut mae trefnu taith ar drafnidiaeth gyhoeddus a'i defnyddio



Mae'n bosibl fyddan nhw ddim yn gwybod sut mae dod o hyd i wybodaeth am sut mae cyrraedd pen eu taith



Mae Hyfforddiant Teithio hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer unigolion sy'n ei chael hi'n anodd mynd o le i le oherwydd salwch neu anabledd diweddar



Os yw'ch perthynas yn ddall neu'n rhannol ddall, bydd yn cael cymorth a chefnogaeth arbenigol er mwyn teithio'n annibynnol yn rhan o'r hyfforddiant teithio



Mae gyda ni swyddogion symudedd arbenigol er mwyn helpu â hyn



NODAU, AMCANION A MANTEISION



Pan fydd modd i'ch perthynas deithio ar ei ben ei hun, bydd darpariaeth cludiant a/neu dacsï wedi'i drefnu ymlaen llawn yn dod i ben



Yna, bydd tocynnau bws a thrên yn cymryd lle unrhyw dacsï neu gludiant a gafodd ei ddarparu yn flaenorol



Mae modd defnyddio'r tocynnau yma i deithio i'r ysgol, y coleg, hyfforddiant, lleoliadau dydd a lleoliadau gwaith



Bydd tocynnau bws yn cael eu cyhoeddi yn unol â chymhwyster cludiant am ddim yn unig Mae'n bosibl y bydd eich perthynas yn gymwys i dderbyn tocyn bws i berson anabl neu i gydymaith er mwyn teithio'n rhad ac am ddim ar yr holl wasanaethau bysiau yng Nghymru



I gael rhagor o fanylion, ffoniwch yr Uned Trafnidiaeth Gyhoeddus ar (01443) 425001



Beth yw nod Hyfforddiant Teithio?



Hyrwyddo diwylliant cynaliadwy o fod yn annibynnol ledled Rhondda Cynon Taf drwy ymweld ag ysgolion



Ysgogi pobl ifainc i eisiau teithio'n annibynnol ac annog datblygu sgiliau bywyd yn yr hirdymor



Hyfforddi a chynorthwyo unigolion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ym maes teithio'n annibynnol, sy'n sgil hanfodol wrth fyw'n annibynnol



Darparu amgylchedd dysgu diogel
ble y mae modd i'ch perthynas
ddod yn fwy annibynnol a dod yn
fwy hyddysg




Annog eich perthynas i
ddefnyddio trafnidiaeth
gyhoeddus



BUDDION I UNIGOLION



Dod yn fwy annibynnol, yn fwy
cydnerth a datblygu mwy o
hunan-hyder



Bod yn fwy effro i ddiogelwch
personol



Cael eu cynnwys yn rhan o'r
gymdeithas mewn ffordd
decach, gan roi rhagor o
ddewis iddyn nhw



Y gallu i fwynhau teithio ar eu pennau eu hunain neu gyda'u ffrindiau yn Rhondda Cynon Taf



Iechyd a Lles - mae defnyddio'r bws a cherdded yn hyrwyddo ymarfer corff a byw'n iach



Safon bywyd gwell a datblygu'n bersonol a chymdeithasol er mwyn bod yn rhan o'r gymdeithas ehangach



Mynediad at addysg bellach, gwaith, hyfforddiant a chyfleoedd bywyd eraill



Bod yn bont i fod yn oedolyn



Datblygu sgiliau trin arian a deall amser



Rhyngweithio â phobl eraill a mynd i'r afael â sefyllfaoedd newydd



Ymdrin â'r annisgwyl, cynllunio a pharatoi ar gyfer teithiau



BUDDION I RIENI/CYNHALWYR



Bydd eich perthynas yn cael ei hyfforddi gan rywun mae'n ei adnabod ac yn ymddiried ynddo



Bydd hyfforddiant naill ai'n wyneb yn wyneb neu'n rhan o grŵp, yn seiliedig ar anghenion hyder a lefel sgiliau eich perthynas



Bydd yr hyfforddiant di-drafferth, hwyliog yn cael ei gynnig am 6 wythnos, yn dibynnu ar ddatblygiad eich perthynas yn ystod y cyfnod yna



Mae'r hyfforddiant o safon uchel, gan addysgu sgiliau a thasgau allweddol a fydd yn helpu'ch perthynas i gerdded a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn ddiogel



Bydd modd i'ch perthynas wneud y gorau o'i fywyd a dod mor annibynnol ag sy'n bosibl



Bydd yr hyfforddiant yn golygu bod modd i chi ddod yn fwy annibynnol, wrth i'ch perthynas ddod yn fwy hyderus gan deithio'n annibynnol



Bydd rhywun yn cyngori â chi ar gynnydd eich perthynas ar bob cam, fel eich bod chi'n deall yr hyn sy'n rhan o'r hyfforddiant a sut mae'n mynd rhagddo



Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau neu bryderon yn ystod y broses, mae croeso i chi gysylltu â'ch Gweithiwr Allweddol neu'r person sy'n arwain yr hyfforddiant yn yr ysgol/y coleg/y sefydliad.

Ben Thomas, Cydlynnydd Hyfforddiant Teithio Annibynnol
Ffôn (Gwaith): 01443 680753
Ffôn symudol: 07880044575

Nicola Murphy, Arweinydd Carfan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuencid
Ffôn (Gwaith): 01443 281436
Ffôn symudol: 07799 132121

Ann Broadway, Rheolwr Gwasanaethau Oriau Dydd / Pontio
Ffôn (Gwaith): 01443 281435

Gweithiwr Allweddol: _____

Ffôn (Gwaith): 01443 _____

Ffôn (Symudol): _____

Os dydy'r person uchod ddim ar gael, ffoniwch:

Uned Trafnidiaeth Integredig
Rhif ffôn y Swyddfa: 01443 425001



SUT BETH YW HYFFORDDIANT TEITHIO YMARFEROL?



Yr ystafell ddosbarth



Cyn dechrau ar yr hyfforddiant
ymarferol, byddwn ni'n pennu
rhai amcanion gyda phob
hyfforddai



Bydd y rhain yn cynnwys meysydd
a fydd o bosibl yn peri pryder, fel
deall yr amser, magu hyder, bod
yn gydnerth a gwella sgiliau
cyfathrebu




Bydd gofyn i bob hyfforddai
nodi'r hyn sy'n dderbyniol ac yn
annerbyniol iddo mewn perthynas
â sut y mae ymddwyn wrth
deithio ar y bws, cerdded o le i
le, cyfathrebu ag aelodau'r
cyhoedd a rhyngweithio â nhw



Gweithio gyda'r hyfforddai:



Er mwyn llunio cynllun teithio i
ben taith yr hyfforddai ac yn ôl



Trafod sut i baratoi ar gyfer
taith

1

Teithio gyda'r
Hyfforddai

2

Cysgodi

3

Cyfarfod a
Chyfarch

Bydd yr hyfforddiant ymarferol yn dilyn tri cham. Bydd manylder yr hyfforddiant a faint o amser sy'n cael ei dreulio arno yn cael ei bennu i gydfynd â'r hyfforddai, a hynny yn unol â chytundeb rhwng yr hyfforddwr a'r rhieni/cynhalwyr

1

Teithio gyda'r Hyfforddai



Cam cynta'r broses hyfforddi yw cael y Gweithiwr Allweddol i deithio gyda'r hyfforddai neu'r grŵp i le maen nhw am fynd, ac yn ôl i'r man cychwyn



Bydd hyn o gyfeiriad cartref yr hyfforddai neu'r grŵp neu fan cyfarfod cytûn, lle mae cyfrifoldeb y rhiant/cynhaliwr neu'r oedolyn cyfrifol yn trosglwyddo i'r Gweithiwr Allweddol




Bydd y Gweithiwr Allweddol yn teithio gyda'r hyfforddai i le mae am fynd, ac yna yn ôl. Pan fydd yr hyfforddai yn ôl yn y cyfeiriad cartref neu'r man cyfarfod cytûn, mae'r cyfrifoldeb yn trosglwyddo i'r rhiant/cynhaliwr neu'r oedolyn cyfrifol tan y daith nesaf gyda'r Gweithiwr Allweddol

2

Cysgodi



Bydd y Gweithiwr Allweddol yn cwrdd â'r hyfforddai yn ei gartref neu mewn man cytûn a sicrhau ei fod yn hyderus a'i fod wedi paratoi ar gyfer y daith



Bydd y Gweithiwr Allweddol yn cysgodi taith yr hyfforddai o bellter diogel, a hynny er mwyn asesu lefel ei sgiliau a'i allu mewn perthynas â chroesi'r ffordd yn ddiogel, diogelwch y ffyrdd yn gyffredinol, mynd ar y bws ac oddi arno a chyfathrebu â gyrrwr y bws



Bydd y Gweithiwr Allweddol yn cysgodi'r unigolyn yn ystod y daith hyd nes iddo gyrraedd pen y daith, pan fydd cyfrifoldeb yn trosglwyddo i'r oedolyn cyfrifol



Ar gyfer y daith yn ôl, bydd yr hyfforddai a'r Gweithiwr Allweddol yn cyfarfod i drafod y llwybr, yna bydd y Gweithiwr Allweddol yn cysgodi'r hyfforddai a'i drosglwyddo i oedolyn cyfrifol pan fydd y daith wedi'i chwblhau

3

Cyfarfod a Chyfarch



Bydd y Gweithiwr Allweddol yn cwrdd â'r hyfforddai yn ei gartref neu fan cyfarfod cytûn a sicrhau ei fod yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus wrth deithio ar y llwybr



Bydd y Gweithiwr Allweddol yn cwrdd â'r hyfforddai ar ben ei daith cyn mynd i mewn i'r sefydliad



Bydd y Gweithiwr Allweddol yn rhoi gwybod i'r rhiant/cynhaliwr neu'r oedolyn cyfrifol bod yr unigolyn wedi cyraedd yn ddiogel



Fydd hyfforddai ddim yn cael teithio ar ei ben ei hun hyd nes bod y Gweithiwr Allweddol o'r farn bod modd iddo deithio heb iddo fod yn hwyr i ben y daith neu heb fynd ar goll



CYRRAEDD YN DDIOGEL



Mae'n bwysig iawn bod yr hyfforddai yn teimlo'n ddiogel wrth gael ei hyfforddi, fel bod modd iddo deimlo'n gyfforddus am fod y tu allan yn y gymuned, defnyddio gwahanol fathau o drafnidiaeth gyhoeddus a symud tuag at deithio'n annibynnol yn raddol



Bydd lefel sgiliau a hunan-hyder yr hyfforddai yn gwella yn raddol wrth ei hyfforddi i deithio i ben ei daith ac yn ôl yn annibynnol



Caiff cynnydd pob hyfforddai ei fonitro'n rheolaidd Pan fydd y Gweithiwr Allweddol o'r farn bod yr hyfforddai yn barod i symud at gam nesaf yr hyfforddiant, bydd hyn yn cael ei drafod gyda'r hyfforddai a'r rhiant/cynhaliwr cyn symud ymlaen




Asesiadau Risg



Mae asesiad risg cyffredinol wedi'i baratoi er mwyn gwerthuso unrhyw risgiau posibl i'r *Gweithwyr Allweddol*, hyfforddeion, aelodau'r cyhoedd a/neu weithredwyr bysiau yn ystod y broses hyfforddi, gan roi mesurau diogelu ar waith er mwyn lleihau risgiau



Pan fydd llwybr i ben y daith ac yn ôl wedi'i nodi ar gyfer pob hyfforddai, bydd y *Gweithiwr Allweddol* ac aelodau'r *Garfan Diogelwch y Ffyrdd* yn cynnal asesiad risg unigol cyn dechrau ar y broses hyfforddi



Fel arfer, bydd y llwybr mwyaf uniongyrchol yn cael ei nodi, ond mae'n bwysig sicrhau mai dyma'r llwybr mwyaf diogel. Mae templed asesiad risg cymeradwy y Cyngor yn cael ei ddefnyddio at y diben yma



Sicrhau Diogelwch



Er mwyn hwyluso'r daith, mae
modd rhoi deunyddiau penodol i'r
Gweithiwr Allweddol a'r
hyfforddai, fel:



Tocyn bws/trên





Cerdyn gofal ychwanegol (waled oren) - wedi'i baratoi'n arbennig ar gyfer pob hyfforddai. Mae'n nodi manylion cyswllt mewn argyfwng y Gweithiwr Allweddol, yr ysgol, y coleg, canolfan oriau dydd, lleoliad gwaith a'r cyfeiriad cartref



Bydd manylion sut mae dod o hyd i wybodaeth deithio hefyd yn cael eu harddangos, h.y. Traveline Cymru a bysys lleol (Stagecoach, Edwards, NAT) neu weithredwr y trenau



Cynllun teithio - sy'n nodi amseroedd, gwybodaeth am fysiau a map gyda llefydd cyfarwydd arno



Hwyrdeb, Salwch ac Argyfyngau



Os bydd y Gweithiwr Allweddol neu'r hyfforddai yn hwyr, yn sâl neu os bydd argyfwng, mae nifer o weithdrefnau mewn argyfwng wedi eu rhoi ar waith



Bydd modd i bawb ddilyn y gweithdrefnau yma a byddan nhw'n helpu i osgoi dryswch a phryder diangen



Bydd gwybodaeth benodol, e.e. amseroedd dechrau a gorffen yr hyfforddiant, yn dibynnu ar yr hyfforddai a'r llwybr. Bydd pawb yn cytuno ar hyn ac yn llofnodi'r cytundeb




Cyn bod modd dechrau ar hyfforddiant, bydd gofyn i rieni/cynhalwyr gwblhau ffurflen manylion cyswllt mewn argyfwng neu ffurflen gyfatebol



Dylid enwi hyd at dri unigolyn gwahanol, lle bo hynny'n bosibl

Nodwch mai chi sy'n gyfrifol am roi gwybod i'r Gweithiwr Allweddol am unrhyw newidiadau



Bydd unrhyw wybodaeth/cyflyrau meddygol hefyd yn cael eu nodi ar y ffurflen cyswllt mewn argyfwng (neu gyfatebol). Chi sydd hefyd yn gyfrifol am roi gwybod i'r Gweithiwr Allweddol am unrhyw newidiadau



Bydd y Gweithiwr Allweddol wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf sylfaenol a bydd modd iddo fynd i'r afael ag unrhyw fân achosion o gwmpo, ac ati. Fodd bynnag, os yw'r achosion yn fwy difrifol neu yn achos argyfwng meddygol, bydd hawl gyda'r Gweithiwr Allweddol gysylltu'n uniongyrchol â'r gwasanaethau brys



Cyfrifoldeb am bob hyfforddai ar y daith



Ar gyfer y daith i'r sefydliad/lleoliad ac yn ôl, bydd y Gweithiwr Allweddol yn gyfrifol am yr hyfforddai sy'n ymgymryd â hyfforddiant teithio



Fel bod pawb yn deall cyfrifoldebau'r rhiant/cynhaliwr o'u cymharu â rhai'r Gweithiwr Allweddol, bydd yr hyfforddiant wyneb yn wyneb bob amser yn cael ei gynnal o gyfeiriad cartref yr hyfforddai neu'r man cyfarfod cytun i ben ei daith ac yn ôl



Os fydd rhiant/cynhaliwr ddim yn bresennol, mae gweithdrefn trosglwyddo cyfrifoldeb wedi ei rhoi ar waith



RÔL RHIENTI A CHYNHALWYR



Fydd hyfforddiant teithio ddim yn llwyddo oni bai bod rhieni/cynhalwyr yn chwarae rôl lawn ynddo



Bydd y Gweithwyr Allweddol yn gweithio'n hynod o galed i sicrhau bod rhieni/cynhalwyr yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol y broses hyfforddi



Bydd hyn yn helpu rhieni/cynhalwyr i ddeall yr hyn y mae'r hyfforddiant yn ceisio ei gyflawni, a'r buddion i fywyd yr hyfforddai yn y pen draw. Bydd gofyn i chi gytuno ar bob penderfyniad a byddwn yn gwerthfawrogi ac yn ystyried eich barn a'ch awgrymiadau



GWASANAETH MONITRO AC ÔL- OFAL



Bydd gwasanaeth monitro ac ôl-ofal (ar gyfer hyfforddion a'u teuluoedd) yn cael ei ddatblygu yn rhan o'r rhaglen hyfforddi



Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod teithwyr annibynnol yn parhau i deithio mewn modd hyderus a diogel pan fydd eu hyfforddiant wedi dod i ben



Bydd y broses fonitro yn cynnwys ymgynghori â hyfforddion a'u teuluoedd o bryd i'w gilydd i wirio cynnydd ac i nodi a oes angen darparu hyfforddiant pellach



Os oes pryderon gwirioneddol ar unrhyw adeg (gan yr hyfforddeion, rhieni/ cynhalwyr neu'r lleoliad) mewn perthynas ag unigolyn sy'n teithio'n annibynnol,



Mae'n bosibl y bydd darpariaeth cludiant amgen yn cael ei hadfer yn y tymor byr hyd nes bydd modd datrys y problemau. Bydd hyn yn unol â'n polisi trafnidiaeth



Bydd y gwasanaeth monitro ac ôl-ofal yn cael ei ddatblygu ar y cyd â'r ysgolion, y gwasanaeth oriau dydd, y rhieni/cynhalwyr a'r hyfforddeion



Mae'n hanfodol bod unrhyw wasanaethau cymorth sy'n cael eu rhoi ar waith yn adlewyrchu syniadau ac anghenion trigolion a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014



CWESTIYNAU CYFFREDIN



**Beth fydd cost Hyfforddiant
Teithio'n Annibynnol?**



Mae Hyfforddiant Teithio'n
Annibynnol ar gael yn rhad ac am
ddim i bob hyfforddai sydd ag
Anghenion Dysgu Ychwanegol



**Pwy sy'n cael Hyfforddiant
Teithio?**



Bydd pob ysgol neu ganolfan oriau
dydd sy'n cymryd rhan yn gwneud
atgyfeiriadau priodol



Bydd nodi'r hyfforddeion yma a'r cynigion i gymryd rhan yn seiliedig ar feini prawf priodol. Mae'n bosibl y bydd y rhain yn cynnwys oedran, anghenion meddygol ac amgylchiadau personol yr hyfforddai



Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant ddim yn cael ei gynnig i'r rheiny y mae'n annhebygol y byddan nhw'n byw'n gwbl annibynnol, a hynny er mwyn peidio â chodi gobeithion di-sail



Beth fydd yn digwydd os bydd fy mherthynas yn ceisio teithio'n annibynnol ond yn methu ag ymdopi â'r broses?



Peidiwch a phoeni. Os yw'ch perthynas yn gymwys i gael cludiant am ddim o ganlyniad i'w Hanghenion Dysgu Ychwanegol (neu yn unol â pholisi'r Cyngor), mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn trefnu ei gludiant ac yn talu ar ei gyfer hyd nes y bydd yn hyderus i roi cynnig arall ar yr hyfforddiant



**Pwy sy'n cymryd cyfrifoldeb dros
fy mherthynas os yw'r
Gweithiwr Allweddol
yn mynd yn sâl?**



Os bydd y Gweithiwr Allweddol yn
sâl, mae'n bosibl y bydd Gweithiwr
Allweddol arall yn cymryd
cyfrifoldeb dros yr hyfforddiant y
diwrnod yna, neu y bydd
trafnidiaeth amgen yn cael ei
threfnu i gludo'r hyfforddai i ben
ei daith ac yn ôl



**A fydd disgwyl i fy mherthynas
fod ar ei ben ei hun wrth fynd
i'r safle bws?**



Bydd y Gweithiwr Allweddol yn codi eich
perthynas o'i gyfeiriad cartref neu fan
cyfarfod cytûn, gan fod yr hyfforddiant
yn cynnwys teithio'r daith gyfan (i'r
ysgol/y coleg/hyfforddiant/canolfan
oriau dydd/lleoliad gwaith)



Bydd y Gweithiwr Allweddol yn asesu sut mae'r hyfforddai yn ymdopi. Bydd raid iddo fod yn hyderus bod modd i'r hyfforddai gyrraedd pen ei daith yn annibynnol, a dod yn ôl ohono



Yn ystod camau Teithio gyda'r Unigolyn a Chysgodi, bydd y Gweithiwr Allweddol yn cwrdd â phob hyfforddai yn ei gyfeiriad cartref neu fan cyfarfod cytûn



Fydd hyfforddeion ddim yn cael eu gadael i deithio ar eu pennau eu hunain hyd nes eu bod wedi teithio'r llwybr sawl gwaith, mae'r Gweithiwr Allweddol wedi asesu eu gallu ac mae'r risg yma'n isel



Beth sy'n digwydd os bydd fy mherthynas yn ymddwyn yn amhriodol?



Bydd y Gweithiwr Allweddol yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'ch perthynas, ag yntau/hithau'n gerddwr a defnyddiwr bws/trên. Bydd disgwyl i'ch perthynas ddilyn y cyfarwyddiadau yma



Os dydy hyfforddeion ddim yn ymddwyn yn briodol, byddwn ni'n ceisio datblygu'r sgil yma ar y cyd



Rydyn ni'n disgwyl y bydd pob hyfforddai wedi'i ysgogi i ddechrau'r hyfforddiant a'r gobaith yw y bydd dim problemau o ran ymddygiad



Beth os yw fy mherthynas yn mynd yn sâl a bod dim modd iddo fynd i'r lleoliad? I bwy ydw i'n rhoi gwybod ac erbyn pryd?



Cyn bod modd dechrau ar hyfforddiant, bydd Gweithiwr Allweddol eich perthynas yn llunio cynllun



Bydd hyn yn nodi faint o'r gloch y bydd angen i'r hyfforddai adael Os yw'ch perthynas yn sâl, dyma ofyn i chi roi gwybod i'r Gweithiwr Allweddol awr cyn i'r hyfforddiant ddechrau



A yw'r hyfforddiant yma ar gyfer y rheiny y byddai modd iddyn nhw deithio ar fws yn unig, neu a oes cynllun cerdded hefyd ar gyfer hyfforddeion sy'n byw'n ddigon agos i gerdded i'w hysgol, eu coleg neu'u sefydliad?



Nod yr hyfforddiant yw helpu unrhyw unigolyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, sy'n derbyn cludiant yn rhad ac am ddim ar hyn o bryd, i deithio'n annibynnol



Unwaith y bydd hyfforddai'n gadael yr ysgol, mae modd i'r gwasanaeth ôl-ofal ddarparu nifer o oriau o hyfforddiant (sgiliau bws/trên a/neu gerdded)



Cynorthwyo unigolion sy'n teithio i leoliad/gweithle/hyfforddiant/coleg newydd, ac ati i barhau i fyw'n annibynnol



Os yw fy mherthynas yn rhoi cynnig ar yr hyfforddiant yma a dyw e ddim at ei ddant/dant, a fydd trafnidiaeth ar gael iddo?



Yn ystod yr hyfforddiant, os bydd y Gweithiwr Allweddol, yr ysgol, y ganolfan oriau dydd a'r rhiant yn cytuno fydd yr hyfforddai ddim yn dod yn gwbl annibynnol neu eu bod nhw ddim yn hapus â'r cynnydd y mae'r hyfforddai yn ei wneud, mae'n bosibl bydd modd adfer ei ddarpariaeth o ran cludiant



Os yw'ch perthynas yn gwrthod cymryd rhan mewn hyfforddiant teithio, mae'n debygol fydd cludiant ddim yn cael ei ddarparu iddo fynd i'w leoliad



Os yw'r hyfforddai yn cwblhau ei hyfforddiant ac yn dod yn gwbl annibynnol, ond bod gydag ef/hi reswm dilys i roi'r gorau i deithio'n annibynnol,



bydd modd ailystyried defnyddio trafnidiaeth wedi'i threfnu gan y Cyngor, ar yr amod bod yr hyfforddai yn dal yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim.



**A fydd gwiriadau cefndir ar y
Gweithwyr Allweddol sy'n
gweithio gyda fy mherthynas?**



Bydd staff y Cyngor sy'n
gweithio'n uniongyrchol gyda
hyfforddeion wedi bod yn destun
Gwiriad estynedig y Gwasanaeth
Datgelu a Gwahardd (DBS)

**Uned Trafnidiaeth Integredig
Rhondda Cynon Taf
Rhondda Cynon Taf**

Ar-lein: www.rctcbc.gov.uk/cludiantysgol

E-bost:

HyfforddiantTeithio@rctcbc.gov.uk

Ffôn: 01443 425001